FFURFLEN MANYLION POLISI

*POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET*

| | | |
|---|---|---|
| Teitl y Polisi: | *Polisi Addasrwydd i Astudio (AU)* | |
| Perchennog y Polisi: | Phil Jones, Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata | |
| Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb: | *James Nelson* | |
| Pwrpas: | Pwrpas y polisi hwn yw darparu fframwaith i staff gefnogi ymgeiswyr a dysgwyr sy'n achosi pryder sylweddol a/neu mewn perygl o niweidio eu hunain a'r effaith y gallai hynny ei chael ar eu gallu i astudio. | |
| Cylch Adolygu: | *Ddwywaith y flwyddyn* | |
| Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog): | I'w weithredu gan: | Dyddiad: |
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad (ELD) | Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr | 19/02/2024 - 01/03/2024 |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer dwy wythnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH) | Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr | 19/02/2024 - 01/03/2024 |
| • Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau | Rheolwr Cydraddoldeb | 13/02/2024 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol | Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr | 19/02/2024 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr | 13/03/2024 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | N/A | N/A |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol / SHE | OES – 13/03/2024 | |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor* | CSSC – 12/03/2024 | |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | 25/04/2024 | |
| • Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp | 26/04/2024 | |

# GRŴP LLANDRILLO MENAI

## POLISI ADDASRWYDD I ASTUDIO (ADDYSG UWCH)

FINAL

| Dyddiad | Adran | Disgrifiad o'r newidiadau Polisi |
|---|---|---|
| 11/10/2023 | 1.1 , 1.2 , 1.3 , 2.1 , 2.2 , 2.5 | Mân newid:<br>Myfyriwr i ddysgwr. |
| 11/10/2023 | 1.2 | Newid mawr:<br>Cyflwyno brawddeg newydd<br><br>Y rheswm dros newid:<br>Cynnwys risg y dysgwr i eraill. |
| 11/10/2023 | 1.3 | Mân newid:<br>Cynnwys iechyd meddwl.<br><br>newid y gair canllawiau i weithdrefnau |
| 11/10/2023 | 1.4 | Mân newid:<br>cynnwys Cyrsiau Addysg Uwch. |
| 11/10/2023 | 1.3 | Mân newid:<br>**dileu'r frawddeg -**<br>neu o ganlyniad i ofynion afresymol ar staff neu fyfyrwyr. |
| 11/10/2023 | 5.1 | Mân newid:<br>Cynnwys parth gwefan llawn gllm |
| 11/10/2023 | 4.1 | Newid mawr:<br>Adolygu bob 2 flynedd ac nid bob blwyddyn |
| 11/10/2023 | 6.2 6.3 6.5 6.6 7.1 7.2 8.1 8.2 8.3 8.4 8.5 10.1 10.2 10.3 | Mân newid:<br>Newid Myfyriwr i ddysgwr |
| 11/10/2023 | 7.1 | Newid mawr:<br>Cynnwys y frawddeg; Mynegi meddyliau hunanladdol nad oes angen eu hatgyfeirio ar frys i'r adran damweiniau ac achosion brys. |
| 11/10/2023 | 7.2 | Mân newid:<br>Cynnwys y frawddeg ganlynol; dysgwyr yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau i Ddysgwyr am gymorth/cefnogaeth. |
| 11/10/2023 | 9.1 | Newid mawr:<br>**Dileu**<br>Canllawiau ar Ataliadau, Ymyriadau a Chwiliadau Corfforol (cyfeirier at y canllawiau ar Ddiwygio ADY sydd i'w cyhoeddi yn Rhagfyr 2018) |
| 11/10/2023 | 12.2 12.3 12.11<br>13.4 | Mân newid:<br>**Diweddaru teitlau swyddi i rolau cyfredol**<br>Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu a |
| 11/10/2023 | 12.4 | Mân newid: |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cynnwys y frawddeg**<br>effaith y salwch meddwl a/neu ymddygiad arno ef neu hi ac/neu |
| 11/10/2023 | 12.8 | **Newid mawr:**<br>Mae'r Grŵp bellach wedi penodi Ymarferydd Iechyd Meddwl ac mae cymorth gan yr Ymarferydd Iechyd Meddwl wedi'i amlygu yma. |
| 11/10/2023 | 12.10.3 | **Mân newid:**<br>Cynnwys y gefnogaeth gan Dimau Llesiant yn y Gwasanaethau i Ddysgwyr sydd wedi tyfu'n sylweddol ers yr adolygiad polisi diwethaf. |
| 11/10/2023 | 13.1 | **Newid mawr:**<br>**Cynnwys y frawddeg arwyddocaol ganlynol**<br>pryderon difrifol neu barhaus am weithredoedd neu ymddygiad myfyriwr sy'n achosi risg sylweddol i iechyd, diogelwch a llesiant y dysgwr neu aelodau eraill o gymuned GLLM. |
| 11/10/2023 | 13.10 | **Mân newid:**<br>Cynnwys y frawddeg arwyddocaol ganlynol |
| 11/10/2023 | 13.18 | **Newid mawr:**<br>**Cynnwys brawddeg newydd**<br>Bydd tîm Llesiant y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn cefnogi unrhyw ddysgwr a argymhellir ei atal neu ei dynnu oddi ar ei raglen ddysgu trwy gytuno ar atgyfeiriad at asiantaethau allanol arbenigol a all gefnogi'r dysgwr ymhellach. |
| 11/10/2023 | 12.9 12.11, 12.14.2<br>13.13, 13.14 | **Newid mawr:**<br>**Cynnwys brawddeg newydd**<br>(neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo'n briodol) |
| 08/01/2024 | 14.2 | **Newid mawr:**<br>Swyddogaeth waith newydd i gefnogi gydag asesu dysgwyr<br>(neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo'n briodol) |
| 08/01/2024 | 14.4 | **Newid mawr:**<br>**Cyflwyno Asesiad Risg a Phroffil Un Dudalen**<br>Addasrwydd i Astudio a chreu proffil un dudalen neu/a Chynllun Cymorth Asesiad Risg. |
| 08/01/2024 | 16.4 | **Newid mawr:**<br>Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu canllawiau allanol newydd |
| 22/02/2024 | 10.4 | **Mân newid:**<br>diweddaru gair o asesiad meddygol annibynnol i *Gwerthusiad Meddygol Annibynnol* yn dilyn adborth gan Nyrs y Coleg. |

FINAL

Cynnwys

## Polisi


1. Datganiad Polisi
2. Pwrpas y Polisi
3. Dull Gweithredu
4. Monitro a Mesur Effaith
5. Cyhoeddi'r Polisi


## Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio


6. Cyd-destun
7. Pryd i Ddefnyddio'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio
8. Strwythur y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio
9. Ymyriad mewn Argyfwng
10. Tystiolaeth Feddygol
11. Cam 1 y Broses - Pryderon cychwynnol neu bryderon sy'n dod i'r amlwg
12. Cam 2 y Broses - Pryderon Parhaus a/neu Sylweddol
13. Cam 3 y Broses - Pryderon Difrifol neu Barhaus, Ymyrraeth Ffurfiol gan y Panel Addasrwydd i Astudio
14. Dychwelyd i Astudio
15. Gweithdrefnau Apelio


FINAL

# Polisi Addasrwydd i Astudio.

## 1. Datganiad Polisi

1.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai (GLlM) wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu diogel ac yn cydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant myfyrwyr mewn perthynas â'u cynnydd academaidd a'u profiad ehangach fel myfyrwyr.

1.2 Mae Addasrwydd i Astudio'n ymwneud â gallu unigolion i gymryd rhan lawn ym mywyd y coleg a chael boddhad o'r profiad. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynnal llesiant myfyrwyr ac yn cydnabod bod agwedd gadarnhaol tuag at reoli iechyd corfforol ac iechyd meddyliol yn bwysig i ddysg myfyrwyr, eu cyflawniad academaidd a'u cynnydd.

1.3 Mae'r polisi a'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio'n disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael pan fo iechyd meddyliol a/neu les myfyrwyr yn dirywio i'r graddau lle na allant ymroi i'w hastudiaethau, gan gynnwys lle y gallent fod mewn perygl o niweidio eu hunain a/neu eraill.

1.4 Lluniwyd y polisi er mwyn sicrhau agwedd gyson a sensitif at reoli addasrwydd i astudio ac mae'n berthnasol i ymgeiswyr a dysgwyr ar holl raglenni astudio Addysg Uwch Grŵp Llandrillo Menai.

## 2. Pwrpas y Polisi

2.1 Mae'r polisi a'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio'n berthnasol i ymgeiswyr a dysgwyr sy'n achosi pryder mawr a/neu mewn perygl o niweidio eu hunain neu eraill. (gweler 13.1)

2.1 Mae gan Grŵp Llandrillo ddyletswydd gofal i bob aelod o gymuned GLLM (dysgwyr a staff) a lle mae ymddygiad dysgwr yn bygwth llesiant unrhyw aelod o'r gymuned honno, bydd GLLM yn cymryd camau yn unol â'r drefn hon i liniaru'r bygythiad hwnnw. Gall y cam hwn olygu cael gwared ar ddysgwr os yw ei ymddygiad yn peri risg bersonol neu risg i unrhyw aelod o gymuned GLlM.

2.2 Mae'r polisi a'r weithdrefn yn annog ymyriad buan a chydweithrediad gweithredol rhwng yr holl staff sy'n rheoli sefyllfaoedd lle ceir pryderon am les dysgwr neu ymgeisydd. Mae'n darparu ymateb cydlynol gan staff academaidd a staff cefnogi mewn amgylchiadau lle nad ystyrir ei bod yn briodol defnyddio gweithdrefnau mewnol eraill megis y Cod Ymddygiad i Ddysgwyr neu'r Polisi ar Amgylchiadau Lliniarol (AU)

2.3 Wrth weithredu ei ddyletswydd gofal tuag at ddysgwyr a staff amcan Grŵp Llandrillo Menai yw ymdrin yn anfeirniadol, yn gyson ac yn sensitif â sefyllfaoedd a all alw am ymatebion gwahanol gan ddibynnu ar lefel cydnabyddedig y pryder.

2.4 Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i addasrwydd i ymarfer sy'n ofynnol ar raglenni proffesiynol arbennig.

2.5 Gall Grŵp Llandrillo Menai atal dysgwr o'i astudiaethau dros dro neu ohirio cynnig rhaglen i ymgeisydd os penderfyna'r coleg bod hynny'n briodol ar ôl dilyn y weithdrefn Addasrwydd i Astudio.

2.6 Os codir pryderon ynghylch Addasrwydd i Astudio tra bod dysgwr ar leoliad neu brofiad gwaith, neu ar ymweliad addysgol neu raglen gyfnewid fe all Grŵp Llandrillo Menai ystyried gwneud trefniadau amgen a bydd yn cysylltu'n briodol â'r trydydd parti cysylltiedig.

2.7 Gellir ystyried addasrwydd dysgwr i astudio yn ogystal â gweithdrefnau eraill coleg GLlM neu weithdrefnau'r brifysgol ddilysu AU a allai fod wedi'u rhoi ar waith, er enghraifft gweithdrefnau disgyblu neu amgylchiadau lliniarol.

## 3. Dull Gweithredu

3.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy gyfrwng y Weithdrefn AU ar Addasrwydd i Astudio.

3.2 Mae tri cham i'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau unigol, gellir rhoi'r weithdrefn ar waith yn ystod unrhyw un o'r camau hyn, pa un ai y bo hyn gyda neu heb gydweithrediad y dysgwr.

## 4. Monitro a Mesur Effaith

4.1 Caiff y Polisi Addasrwydd i Astudio ei fonitro a'i adolygu bob dwy flynedd yn unol â phroses gymeradwyo polisïau AU Grŵp Llandrillo Menai a'r brifysgol sy'n dyfarnu'r cymhwyster.

## 5. Cyhoeddi'r Polisi

5.1 Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp (www.gllm.ac.uk) ac yn llawlyfrau/Amgylchedd Dysgu Rhithiol y rhaglen, a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar Borth y Grŵp.

## Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio (AU)

## Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio

## 6. Cyd-destun

6.1 Gall pryderon am iechyd meddyliol a llesiant myfyrwyr gael eu codi gan staff, dysgwyr eraill, rhieni, asiantaethau allanol a/neu gan drydydd parti.

6.2 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio i'w defnyddio mewn achosion lle canfyddir bod ymddygiad dysgwr neu ei effaith ar ddysgwyr eraill a/neu staff o natur ddifrifol neu ddifrifol bosibl.

6.3 Ni ddisgwylir i ddysgwr sy'n codi pryder i reoli sefyllfaoedd o'r fath a dylent bob amser gysylltu ag aelod o staff. Gall y Gwasanaethau i Ddysgwyr, y Swyddog AU neu Reolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp hefyd roi cyngor i fyfyrwyr.

6.4 Os canfyddir ei fod yn fater Diogelu neu os yw staff yn teimlo na allant ymdrin â'r sefyllfa, a bod angen cyngor neu arweiniad arnynt ar y ffordd orau i ddelio â dysgwr, disgwylir iddynt gysylltu â thîm llesiant y Gwasanaethau i Ddysgwyr neu gyfeirio at aelod o'r tîm diogelu neu drafod gyda'u rheolwr llinell.

6.5 Mae gan ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau lle mae angen mynd ar leoliad proffesiynol ymarferol (meysydd megis iechyd, gwaith cymdeithasol, addysg ac astudiaethau heddlu) gyfrifoldebau ychwanegol, nid yn unig o ran eu hymddygiad ond o ran eu haddasrwydd proffesiynol hefyd, fel yr amlinellir mewn codau ymarfer cyrff rheoliadol a/neu broffesiynol perthnasol. Dylid edrych yn llawn ar y rhain cyn defnyddio'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio.

6.6. Ni ddylid defnyddio'r weithdrefn hon mewn argyfwng neu sefyllfaoedd brys, er enghraifft lle mae dysgwr yn bygwth niweidio ei hun, neu mae wedi niweidio ei hun, neu wedi cael ei anafu. Fel arfer, dylai'r gwasanaethau brys gael eu galw ar y cyd â'r Uned Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd neu'r Gwasanaethau i Ddysgwyr mewn achosion o'r fath

## 7. Pryd i Ddefnyddio'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio

7.1 Gall pryderon ynghylch addasrwydd dysgwr i astudio gael eu hysgogi gan nifer helaeth o amgylchiadau amrywiol sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- absenoldeb neu ddiffyg ymroddiad sylweddol
- dirywiad sydyn mewn perfformiad academaidd neu gymhelliad
- newid mewn ymddangosiad neu arwyddion amlwg o salwch (e.e. colli neu fagu pwysau'n ddramatig, diffyg glanweithdra a gofal personol)
- Mynegi meddyliau hunanladdol nad oes angen eu hatgyfeirio ar frys i'r adran damweiniau ac achosion brys.
- hwyliau newidiol neu ymddygiad anarferol (e.e. bod yn ymosodol, yn fewnblyg, yn obsesiynol, gor-fyrlymus neu'n or-hwyliog, yn ofidus, yn bigog)
- ymddygiad amhriodol (e.e. cyffwrdd yn amhriodol, mynd yn rhy agos at bobl, chwerthin neu barablu'n ormodol ac yn annisgwyl am gyfnodau hir, iaith anweddus annodweddiadol fel rhegi) defnyddio iaith hiliol neu wahaniaethu yn erbyn eraill)
- osgoi gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon a oedd yn cael eu hystyried yn bwysig ar un adeg

- syrthni neu arwyddion o ddiffyg cwsg, neu ddryswch anarferol
- arwyddion amlwg o gamddefnyddio sylweddau / alcohol
- gwybodaeth am achosion penodol (e.e. meddwl am hunan niweidio/lladd ei hun neu geisio gwneud hynny)
- newidiadau mewn ymddygiad neu iechyd sy'n golygu bod defnydd y dysgwr o offer ac ati yn beryglus i'w hunain a/neu i eraill.

7.2 Ni ddylid defnyddio'r weithdrefn hon i wahardd dysgwyr rhag astudiaethau o dan y categorïau canlynol:

- Absenoldebau byr cymeradwy a rhesymol wedi'u hategu gan dystiolaeth feddygol (e.e. salwch tymor byr). Dylid trin achosion o'r fath fel absenoldebau awdurdodedig gan ragdybio bod dysgwyr yn gallu parhau gyda gwaith cefndir, yn gallu defnyddio adnoddau electronig ac y gellir cymeradwyo estyniadau priodol ar gyfer gwaith cwrs.
- Sefyllfaoedd y gellir ymdrin â hwy drwy gyfrwng gweithdrefnau Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer amgylchiadau lliniarol.
- Achosion disgyblu.
- Achosion ymarfer annheg. Dylid ystyried achosion o'r fath yn unol â Gweithdrefn Ymarfer Annheg Grŵp Llandrillo Menai.
- Gohirio astudiaethau'n wirfoddol ar sail iechyd a rhesymau eraill. Dylid ystyried achosion o'r fath yn unol â Gweithdrefn Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau Grŵp Llandrillo Menai. Grŵp Llandrillo Menai.
- Dysgwyr sydd mewn dyled. Dylid ystyried achosion o'r fath yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â dyledwyr a chyfeirio dysgwyr at y Gwasanaethau i Ddysgwyr am gymorth/cefnogaeth.
- Cynnydd Academaidd a ystyrir gan Fyrddau Arholi.
- Dysgwyr y gellir gwahardd neu derfynu eu hastudiaethau drwy weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses gymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.

## 8. Strwythur y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio

8.1 Diben y weithdrefn hon yw cefnogi dysgwyr a staff i reoli sefyllfaoedd a digwyddiadau sy'n achosi pryder mawr. Mae tri cham i'r weithdrefn, yn seiliedig ar lefel gydnabyddedig y risg i iechyd, diogelwch a llesiant meddyliol y dysgwr neu eraill ac ar ymateb y dysgwr i unrhyw ymyriad. Gall yr hyn sy'n achosi pryder arwain at:

- ddechrau'r weithdrefn ar unrhyw un o'r 3 cham
- aros ar gam neu
- mynd drwy'r camau, os na fydd yr hyn sy'n achosi pryder yn cael ei wella drwy weithredoedd a argymhellir a chytunir arnynt.

8.2 Mae cyfathrebu'n hollbwysig wrth asesu lefel y risg i iechyd a llesiant dysgwyr. Gall ymyrryd yn fuan ac argymell cymorth helpu i atal sefyllfaoedd o argyfwng rhag digwydd. Lle bo staff yn teimlo nad ydynt yn ddigon hyderus i ddelio â sefyllfa neu'n teimlo'n ansicr ynglŷn â dechrau'r weithdrefn hon, fe'i hanogir i ofyn am gyngor gan y Gwasanaethau i Ddysgwyr, Rheolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp neu'r Swyddog AU.

8.3 I sicrhau cyfrinachedd priodol, dylid gofyn am y cyngor hwn heb ddatgelu manylion am y dysgwyr dan sylw, h.y. ar sail ddienw.

8.4 Lle bynnag y bo modd dylai dysgwyr fod yn gysylltiedig â rheoli eu llesiant eu hunain. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau lle nad yw dysgwyr yn fodlon gweithio o fewn y weithdrefn hon, neu ddim yn gallu gwneud hynny. Yn yr achosion hyn, dylid parhau â'r broses gan dynnu sylw at bryderon, gofyn am gyngor a gweithredu fel y bo'n briodol.

8.5 Os bydd dysgwr yn dewis gohirio ei astudiaethau oherwydd salwch, bydd y weithdrefn Addasrwydd i Astudio'n ailddechrau cyn i'r dysgwr ddychwelyd i astudio.

## 9. Ymyriad mewn Argyfwng

9.1 Mae'n bosibl y gall dysgwyr fod yn risg uniongyrchol iddynt eu hunain ac / neu eraill ac y bydd angen cymorth brys y tu allan i'r weithdrefn hon. Mewn achosion o'r fath dylai staff gyfeirio at y canlynol:

- Canllawiau ar Ddiogelwch a Digwyddiadau Brys
- Y Polisi Diogelu
- Canllawiau ar Iechyd a Diogelwch
- Protocol Cymorth Cyntaf

9.2 Fel arall dylid gofyn am gyngor gan staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr neu'r Uned Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd.

## 10. Tystiolaeth Feddygol

10.1 Os codir pryderon ynghylch addasrwydd dysgwr i astudio dylid annog y dysgwr i gydweithredu ag unrhyw gais rhesymol i ddarparu tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall. Fodd bynnag, gall dysgwr ddewis peidio â chydweithredu â'r cais.

10.2 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n parchu'r dystiolaeth feddygol neu'r dystiolaeth arall a ddarperir gan y dysgwr. Os yw ymddygiad y dysgwr yn ganlyniad i gyflwr meddygol a bod yr ymddygiad hwn yn achosi pryder dylid ymdrin â'r mater yn unol â'r polisi ar God Ymddygiad Dysgwyr.

10.3 Yn arferol ni ddisgwylir y bydd costau'n gysylltiedig â darparu tystiolaeth; os bydd costau'n codi byddant fel arfer yn cael eu talu gan y dysgwr.

10.4 Os bydd angen Gwerthusiad Meddygol Annibynnol bydd y coleg yn trefnu hyn ac fe all ofyn am i gwestiynau penodol gael eu gofyn. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn fe all Grŵp Llandrillo Menai dalu'r gost o ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

## 11. Cam 1 y Broses - Pryderon cychwynnol neu bryderon sy'n dod i'r amlwg
## Ymyriad Anffurfiol o fewn y Maes Rhaglen

11.1 Defnyddir Cam 1 os oes pryderon cychwynnol neu bryderon yn dod i'r amlwg am iechyd, diogelwch neu les meddyliol dysgwr.

11.2 Os oes gan ddysgwr bryderon am gyd-ddysgwr, dylai drafod y rhain gyda'r aelod o staff y mae'n teimlo'n fwyaf cyfforddus ag ef/hi. Gall fod yn diwtor, yn Arweinydd Rhaglen, yn Diwtor Personol neu'n aelod o dîm y Gwasanaethau i Ddysgwyr. Ni fydd disgwyl i'r dysgwr ymdrin â'r sefyllfa ei hun ac ar ôl trafod y mater ag aelod staff, bydd yr aelod staff hwnnw'n gwneud atgyfeiriad priodol neu'n ymdrin â'r mater.

11.3 Os nodwyd pryderon gan aelod staff, yna dylai'r aelod staff neu aelod arall gyda chyfrifoldeb sylfaenol a/neu wybodaeth am y dysgwr (naill ai gwasanaethau academaidd neu wasanaethau i ddysgwyr) siarad â'r dysgwr gan ddangos cydymdeimlad a dealltwriaeth. Bydd yn nodi bod pryderon yn cael eu codi am addasrwydd y dysgwr i astudio, a bod y pryderon yn cael eu cofnodi drwy'r defnydd o'r weithdrefn hon. Gall staff gysylltu â'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i drafod a yw'n briodol defnyddio'r weithdrefn hon.

11.4 Wrth ddechrau ar Gam 1 dylid egluro natur y pryderon, a dylid annog y dysgwr i drafod y mater, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ei hunan ac ar eraill. Er bod gan Grŵp Llandrillo Menai ddyletswydd gofal i gefnogi dysgwyr sydd â salwch meddwl, dylid egluro mai cyfrifoldeb y dysgwr yw bod yn addas i astudio. Fel y bo'n briodol, dylid darparu gwybodaeth am ffynonellau cefnogaeth broffesiynol y gall y dysgwr eu defnyddio yng Ngrŵp Llandrillo Menai (e.e. Cymorth i Ddysgwyr, y Gwasanaeth Cwnsela, yr Hwb Llesiant a meddyg teulu'r dysgwr).

11.5 Dylai'r dysgwr a'r Arweinydd Rhaglen gytuno ar ddyddiad i gyfarfod o fewn 1 mis i adolygu'r sefyllfa a elwir yn gyfarfod Cam 1 i Adolygu Addasrwydd i Astudio, a thrafod effeithiolrwydd y gefnogaeth a gafodd y dysgwr. Dylai'r pwyntiau a'r cytundebau allweddol, gan gynnwys pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r drafodaeth hon gael eu cofnodi ar eDRAC a'u hegluro i'r dysgwr. Rhaid anfon copi o'r ffurflen at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith. Dylid cadw copi o'r wybodaeth hon ar ffeil y dysgwr am gyfnod cytunedig. Dylid

rhoi sicrwydd i'r dysgwr mai pwrpas cadw'r wybodaeth ar ffeil yw sicrhau bod Grŵp Llandrillo Menai'n darparu'r holl gymorth angenrheidiol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y dysgwr yn parhau i fod yn addas i astudio.

11.6 Mae pob gwybodaeth feddygol yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata LSM Grŵp Llandrillo Menai, ac yn unol â datganiad GDPR y Grŵp yn cael ei chadw dros gyfnod astudio'r dysgwr.

11.7 Os bydd y pryderon yn parhau, os bydd unrhyw bryderon eraill yn codi, neu os bydd dysgwr yn gwrthod cymryd rhan yn y broses, neu'n methu â gwneud hynny dylid rhoi gwybod iddynt y gall hyn arwain at roi ystyriaeth bellach i'w haddasrwydd i astudio. Gwneir hyn drwy symud i Gam 2 y weithdrefn.

11.8 Efallai y bydd angen cysylltu â'r dysgwr fwy nag unwaith yn ystod Cam 1.

11.9 Os na cheir ymateb i'r cyswllt neu os bydd lefel y pryder yn cynyddu, dylai'r Arweinydd Rhaglen symud ymlaen i Gam 2.

## 12. Cam 2 y Broses - Pryderon Parhaus a/neu Sylweddol
## Ymyriad Ffurfiol, Adolygiad Achos a Gychwynnir gan y Maes Rhaglen

12.1 Defnyddir Adolygiad Achos Cam 2 os oes pryderon parhaus neu sylweddol am iechyd, diogelwch neu les meddyliol dysgwr.

12.2 Caiff Adolygiad Achos Cam 2 ei gynnal gan unai Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu enwebai penodedig, a fydd yn gweithio ar y cyd â staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr a staff y Maes Rhaglen. Gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch dilyn Cam 2 y weithdrefn gan Bennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Phennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ôl derbyn gwybodaeth gan yr aelodau staff a'r asiantaethau allanol perthnasol.

12.3 Gwahoddir y dysgwr i Adolygiad Achos Cam 2 fydd yn cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu enwebai penodedig i drafod y pryderon sy'n cael eu codi. Bydd Rheolwr y Maes Rhaglen ac Arweinydd Rhaglen perthnasol hefyd yn bresennol ynghyd â'r aelod staff a gododd y mater, os yw hynny'n briodol.

12.4 Rhoddir gwybod i'r dysgwr bod cymryd rhan yn Adolygiad Achos Cam 2 y weithdrefn yn orfodol a gall gwrthod â gwneud hynny arwain at symud ymlaen i Gam 3. Pwrpas y cyfarfod fydd canfod beth yw barn y dysgwr am y materion a nodwyd, gan gynnwys effaith y salwch meddyliol a/neu ymddygiad arno ef neu hi ac/neu ar gymuned Grŵp Llandrillo Menai.

12.5 Dylai'r dysgwr gael gwybod beth yw pwrpas y cyfarfod a pha ddogfennau fydd eu hangen gan gynnwys tystiolaeth feddygol os yw'n briodol. Gall y dysgwr ddod â rhywun gydag ef neu hi i'r cyfarfod hwn, er enghraifft aelod o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff Grŵp Llandrillo Menai mewn rôl gefnogol, neu aelod agos o'r teulu. Gall dysgwyr ag anabledd hefyd ddod â gweithiwr cymorth gyda hwy (e.e. dehonglydd iaith arwyddion neu weithiwr iechyd meddwl).

12.6 Os yw dysgwr o dan 18 oed ac yn astudio ar raglen AU, dylid hysbysu'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol bod y broses Addasrwydd i Astudio AU yn cael ei chynnal.

12.7 Gall y dysgwr ofyn am gael bod yn bresennol drwy'r holl Adolygiad Achos Cam 2 neu am ran ohono.

12.8 Fel cadeirydd, bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr neu Bennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn arwain yr adolygiad ac yn galw tystion os oes angen. Ceisir mewnbwn hefyd gan Ymarferydd Iechyd Meddwl Grŵp Llandrillo Menai.

12.9 Yn ystod y cyfarfod bydd cynllun gweithredu a gytunir gan bawb (neu Gynllun Cymorth Asesu Risg lle bo'n briodol) yn cael ei lunio er mwyn cefnogi'r dysgwr a chytuno'n ffurfiol ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddo ef neu hi. Bydd i Gynllun Gweithredu Addasrwydd i Astudio Cam 2 ddyddiad adolygu penodol, a rhaid

egluro i'r dysgwr beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y cynllun gweithredu cytunedig. Gall olygu symud i Gam 3 y weithdrefn lle y gellir ystyried bod angen gwahardd y dysgwr rhag parhau â'i astudiaethau.

12.10 Os na ellir cytuno ar gynllun gweithredu yn ystod Cam 2, mae'n rhaid i'r achos symud ymlaen i Gam 3.

12.11 Bydd adroddiad ar y cyfarfod a'i ganlyniadau'n cael eu cofnodi gan Bennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu enwebai penodedig. Cyflwynir copi o'r Cynllun Gweithredu Addasrwydd i Astudio Cam 2 cytunedig (neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo'n addas) i Reolwr y Maes Rhaglen perthnasol ac Arweinydd Rhaglen y dysgwr.

12.2 Bydd yr Arweinydd Rhaglen yn rhannu hwn â staff perthnasol yn y Maes Rhaglen fel y bo'n briodol.

12.13 Os na chedwir at y Cynllun Gweithredu Addasrwydd i Astudio Cam 2, neu os bydd unrhyw bryderon eraill yn codi dylid rhoi gwybod i'r dysgwr y gall hyn arwain ar roi ystyriaeth bellach i'w addasrwydd i astudio drwy symud i Gam 3.

12.14 Y canlyniadau posibl i Adolygiad Achos Cam 2 yw:

12.14.1 Nid oes angen cymryd camau pellach

12.14.2 Monitro'r dysgwr yn ffurfiol am gyfnod penodol. Cytuno ar Gynllun Gweithredu Addasrwydd i Astudio (neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo’n briodol) gyda'r dysgwr a chynnal cyfarfodydd adolygu a monitro rheolaidd gydag aelod staff penodedig.

12.14.3 Argymell gweithredu trefniadau academaidd penodol; gall hyn gynnwys atal astudiaethau'r myfyriwr neu atgyfeiriad i Dîm Llesiant Grŵp Llandrillo Menai neu/a chefnogaeth allanol. Dylai argymhellion o'r fath gael eu cytuno â Rheolwr Maes Rhaglen y myfyriwr, Arweinydd y Rhaglen a'r Pennaeth Cynorthwyol.

12.14.4 Cyfeirio'r achos at y Panel Addasrwydd i Astudio, yn unol â Cham 3 y weithdrefn ffurfiol. Dyma'r cam priodol ar gyfer pob achos difrifol lle ceir tystiolaeth o risg gwirioneddol i iechyd a diogelwch y dysgwyr neu aelodau eraill o gymuned GLlM. Dyma'r cam i'w ddefnyddio pan fydd atal y dysgwr dros dro neu ei wahardd yn barhaol yn cael eu hystyried yn briodol neu os yw'r dysgwr wedi gwrthod cytuno â'r argymhellion neu'r cynllun gweithredu a wnaed yng Ngham 2.

## 13. Cam 3 y Broses - Pryderon Difrifol neu Barhaus
## Ymyriad Ffurfiol gan y Panel Addasrwydd i Astudio

13.1 Defnyddir Cam 3 os codir pryderon difrifol neu barhaus am weithredoedd neu ymddygiad dysgwr sy'n achosi risg sylweddol i iechyd, diogelwch a llesiant y dysgwr neu aelodau eraill o gymuned Grŵp Llandrillo Menai.

13.2 Bydd y 'Panel Addasrwydd i Astudio'n cael ei alw'n dilyn cyfeirio'r achos gan banel Adolygiad Achos Cam 2 neu os bydd Rheolwr y Maes Rhaglen o'r farn bod y pryderon yn ddigon difrifol i ystyried atal y dysgwr dros dro.

13.3 Gall y dysgwr gael ei atal ar unrhyw adeg os oes risg sylweddol o niwed i'r unigolyn neu eraill. Os caiff dysgwr ei atal oherwydd ffactor risg uchel, bydd y Panel Addasrwydd i Astudio'n cael ei alw ynghyd o fewn 10 diwrnod o ddyddiad yr ataliad.

13. 4 Bydd y Pennaeth Cynorthwyol, Grŵp AU mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gwasanaethau, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Rheolwr Sicrhau Ansawdd a'r Rheolwr Maes Rhaglen perthnasol yn galw cyfarfod o'r Panel Addasrwydd i Astudio.

13. 5 Bydd y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd yn gweinyddu'r amserlen, yn cymryd nodiadau ac yn diweddaru'r holl gofnodion sy'n ymwneud â chyfarfod y Panel Addasrwydd i Astudio.

13.6 Os posibl, rhoddir rhybudd o 10 diwrnod gwaith o leiaf i'r dysgwr o'r gwahoddiad i ddod i gyfarfod o'r Panel Addasrwydd i Astudio.

13.7 Gall y dysgwr ddod â chynrychiolydd o Undeb y Myfyriwr, dysgwr arall neu gynghorydd arall gydag ef i'r cyfarfod, ond nid cynrychiolydd cyfreithiol. Os oes angen, gall dysgwyr anabl ddod â gweithiwr cymorth i'r cyfarfod.

13.8 Fel arfer, bydd y canlynol yn bresennol yn y Panel Addasrwydd i Astudio:

- Rheolwr Maes Rhaglen
- Arweinydd y Rhaglen neu'r Tiwtor
- Y Pennaeth Cynorthwyol, AU y Grŵp
- Rheolwr Sicrhau Ansawdd
- Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr a/neu Bennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu a
- Cynrychiolwyr priodol o dimau cefnogi'r coleg
- Cynrychiolaeth feddygol fel y bo'n briodol
- Unrhyw dystion eraill a ystyrir yn briodol gan y cadeirydd

13.9 Bydd y Panel Addasrwydd i Astudio yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Cynorthwyol, Grŵp AU neu enwebai penodedig.

13.10 Pwrpas y cyfarfod fydd ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys barn y dysgwr am y pryderon hyn a dod i benderfyniad ar gynllun gweithredu neu ganlyniad arall priodol fel y'i hamlinellir yn 12.14 a 13.13.

13.11 Gall y Panel drefnu'r cyfarfod yn ôl ei ddoethineb ei hun gan ddibynnu ar y cyd-destun a'r angen i alw tystion.

13.12 Gall y Panel ofyn am dystiolaeth feddygol bellach lle y bo'n briodol.

13.13 Bydd y Panel Addasrwydd i Astudio'n penderfynu ar ganlyniad a fydd fel arfer yn un o'r canlynol:

- Cynllun Gweithredu gwell neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo'n briodol
- atal dros dro ar sail iechyd a llesiant
- gwaharddiad neu ofyniad i adael y rhaglen ddysgu
- Oedi'r penderfyniad os oes angen rhagor o dystiolaeth

13.14 Os bydd y Panel Addasrwydd i Astudio yn argymell gwell Cynllun Gweithredu (neu Gynllun Cymorth Asesiad Risg lle bo'n briodol), bydd y dysgwr yn cael ei wahodd i gwrdd â'r Pennaeth Cynorthwyol, Grŵp AU neu ei enwebai i dderbyn a thrafod y camau gweithredu a argymhellir. Gwahoddir y dysgwr i ddod ag unigolyn i'r cyfarfod i'w gefnogi. Bydd i'r cynllun ddyddiad adolygu penodol, ac eglurir i'r dysgwr beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y cynllun gweithredu. Cyflwynir copi o'r cynllun gweithredu cytunedig i Reolwr y Maes Rhaglen perthnasol ac i Arweinydd Rhaglen y dysgwr a chaiff ei storio ar eDRAC.

13.15 Os cytunir i argymell bod y dysgwr yn cael ei atal o'i astudiaethau fe'i hysbysir yn ysgrifenedig o delerau'r ataliad o fewn 7 diwrnod gwaith i'r ataliad. Fe all y dysgwr gael ei wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau colegol, ei wahardd rhag dod i'r coleg neu gyfyngu ar ei hawl i ddod i'r coleg. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen hysbysu'r dysgwr ar lafar ei fod yn cael ei wahardd ar unwaith ac y bydd llythyr ffurfiol yn dilyn. Bwriad yr ataliad yw rhoi cyfle i'r dysgwr gael amser oddi wrth ei astudiaethau a rhoi sylw i broblemau iechyd a llesiant er mwyn, lle bynnag y bo modd, iddo ef neu hi ddychwelyd i Grŵp Llandrillo Menai ac ailddechrau astudio.

13.16 Dim ond mewn achosion difrifol iawn yr argymhellir gwaharddiad llwyr, er enghraifft pan fo'r holl ddulliau cefnogi wedi cael eu dihysbyddu neu, pan fo'r dysgwr yn gwrthod cydymffurfio'n wirfoddol ag ataliad neu pan fo'r dysgwr heb ymateb i'r camau i'w gefnogi.

13.17 Caiff y myfyriwr ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r penderfyniad o fewn 7 diwrnod gwaith o gyfarfod y Panel Addasrwydd i Astudio.

13.18 Bydd tîm Llesiant y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn cefnogi unrhyw ddysgwr a argymhellir ei atal neu ei dynnu oddi ar ei raglen ddysgu trwy gytuno ar atgyfeiriad at asiantaethau allanol arbenigol a all gefnogi'r dysgwr ymhellach.

13.19 Caiff canlyniad y Panel ei adrodd wrth y Pennaeth ac wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor AU ar Sicrhau Ansawdd a Safonau ar gyfer dibenion monitro'n unig. Ni fydd manylion y rheswm yn cael eu datgelu.

## 14. Dychwelyd i Astudio

14.1 Bydd aelodau'r Panel Addasrwydd i Astudio Cam 3, a wnaeth y penderfyniad i atal y dysgwr yn cael eu hail-alw i ystyried a yw'r dysgwr yn addas i ddychwelyd i astudio. Os nad yw'n bosibl i'r holl aelodau ddod i'r cyfarfod dylid gwahodd o leiaf un Pennaeth Cynorthwyol nad oedd yn rhan o'r cyfarfod gwreiddiol i ystyried y cais am gael dychwelyd i astudio.

14.2 Ni fydd unrhyw ataliad yn cael ei godi hyd nes y bo'r dysgwr wedi darparu tystiolaeth feddygol briodol a/neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall gan ei feddyg teulu neu weithiwr proffesiynol arall sy'n dangos ei fod yn addas i ddychwelyd i astudio. Bydd Ymarferydd Iechyd Meddwl Grŵp Llandrillo Menai yn asesu'r dystiolaeth ac yn cynnal asesiad o barodrwydd y dysgwr i ddychwelyd i astudio.

14.3 Gall Grŵp Llandrillo Menai ofyn i'r gweithiwr meddygol ateb cwestiynau penodol neu ystyried materion penodol, ac ni fydd yn codi'r ataliad hyd nes ei fod yn fodlon bod y dysgwr yn addas i ddychwelyd i amgylchedd dysgu Grŵp Llandrillo Menai.

14.4 Pan fo hynny'n briodol, gall y coleg hefyd, mewn ymgynghoriad â'r brifysgol sy'n dilysu'r cymhwyster, ofyn i'r dysgwr ddod i gyfweliad â'r staff perthnasol i benderfynu ar ei Addasrwydd i Astudio a chreu proffil un tudalen a/neu Gynllun Cefnogi Asesiad Risg.

14.5 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n gwneud pob ymdrech i ganiatáu i'r dysgwr barhau â'i astudiaethau. Gall hyn gynnwys ail-wneud cyfnodau astudio a mynychu cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Bydd y gallu i ail-wneud neu ddychwelyd i astudio'n dibynnu ar deilyngdod pob achos unigol.

## 15. Gweithdrefn Apelio

15.1 Os bydd dysgwr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Panel Addasrwydd i Astudio i atal neu wahardd gall wneud hynny drwy gyflwyno'n ysgrifenedig ei resymau dros apelio i Bennaeth y coleg priodol.

15.2 Dylid cyflwyno'r Apêl yn ysgrifenedig o fewn 10 niwrnod gwaith o ddyddiad derbyn yr hysbysiad o'r penderfyniad.

15.3 Ystyrir apeliadau am y rhesymau canlynol yn unig:

- Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Adolygiad Achos neu gyfarfodydd y Panel Addasrwydd i Astudio a lle y gallai'r diffygion neu'r afreoleidd-dra dan sylw fod wedi effeithio ar benderfyniad y Panel.
- Amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Panel. Rhaid i'r sawl sy'n apelio egluro pam na ddatgelwyd yr amgylchiadau personol dan sylw i'r Panel cyn y cyfarfod.

15.4 Bydd y Pennaeth neu'r enwebai penodedig yn ymchwilio i'r pryderon mewn unrhyw ffordd a ystyrir yn briodol gan GLLM er mwyn casglu gwybodaeth lawn a pherthnasol cyn dod i benderfyniad ar yr apêl. Fel rheol, rhyddheir penderfyniad y Pennaeth o fewn 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir yr apêl.

15.5 Fel rheol ni chaniateir apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd i Astudio a gafodd ei ail-alw nag apeliadau gan ddysgwyr a wrthododd gymryd rhan yn y broses.

15.6 Yn unol â Deddf Addysg Uwch 2004 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) wedi ei phennu gan Lywodraeth Cymru i weithredu cynllun annibynnol yng Nghymru ar gyfer adolygu cwynion gan ddysgwyr. Pan fo'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio wedi'i chwblhau gall dysgwyr gyflwyno cwynion i'r SDA ond rhaid i hyn ddilyn atgyfeiriad i Weithdrefn Gwyno fewnol y sefydliad perthnasol y bydd angen ei dihysbyddu cyn cysylltu â'r SDA. Unwaith y bydd hyn wedi digwydd, rhaid cyflwyno cwyn o'r fath trwy anfon Ffurflen Gais y Cynllun ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol i'r SDA o fewn tri mis o'r dyddiad ar y 'Llythyr Cwblhau Trefniadau Gweithredu' yn nodi bod y brifysgol/coleg wedi cwblhau'r gweithdrefnau mewnol. Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais y Cynllun oddi ar wefan yr SDA www.oiahe.org.uk. Gellir cael arweiniad pellach gan y Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethu a Gwybodaeth.

## 16. Camau Disgyblu

16.1 Os bydd dysgwr â salwch meddyliol neu gorfforol yn torri unrhyw un o reoliadau'r rhaglenni a ddilysir caiff y rhain eu hystyried o dan weithdrefnau Grŵp Llandrillo Menai ar God Ymddygiad Dysgwyr. Fel rheol ni fydd dysgwr yn cael ei eithrio o ymchwiliad disgyblu oherwydd ei fod yn cael ei ystyried mewn perthynas ag addasrwydd i astudio.

16.2 Ystyrir teilyngdod pob achos yn unigol gan roi sylw priodol i faterion sy'n gysylltiedig â salwch meddyliol a/neu salwch corfforol.

## 17. Monitro

17.1 Cesglir data ar y defnydd o'r weithdrefn hon fel a ganlyn:

- nifer yr achosion ar bob cam o'r drefn
- nifer y rhai sy'n cael eu hatal rhag astudio
- canlyniadau terfynol e.e. dychwelyd i ddysgu

17.2 Er mwyn sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei ddefnyddio'n deg a chyson caiff y data uchod ei gasglu, ei fonitro a'i adrodd yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, oed, crefydd/credo a thueddiadau rhywiol lle y bo'n bosibl. Er mwyn dysgu gwersi bydd canlyniadau pob achos Addasrwydd i Astudio'n cael eu trafod â staff y Meysydd Rhaglen perthnasol.

17.3 Bydd yr uchod i gyd eu hadrodd gan y tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr a'u monitro gan y coleg drwy'r Pwyllgor Addysg Uwch ar Sicrhau Ansawdd a Safonau yn unol â strwythur pwyllgorau AU.

17.4 Pan fydd hynny'n briodol bydd y tîm AU yn rhoi gwybod i'r brifysgol sy'n dilysu'r cymhwyster am bob ataliad sy'n arwain o'r Weithdrefn Addasrwydd i Astudio.

## 18. Materion Gweinyddol Cyffredinol

18.1 Gellir dirprwyo unrhyw un o'r swyddogaethau a gynhwysir yn y Polisi hwn i enwebai.

18.2 Wrth ddefnyddio'r polisi a'r weithdrefn Addasrwydd i Astudio bydd Grŵp Llandrillo Menai'n rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol; polisïau'r brifysgol sy'n dyfarnu'r cymhwyster a pholisïau a gweithdrefnau eraill y coleg.

18.3 Wrth weithredu'r polisi hwn mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydnabod y bydd yn derbyn gwybodaeth bersonol a sensitif a data cyfrinachol am ddysgwyr ac eraill ac mae'n sicrhau y bydd data o'r fath yn cael ei drin, ei brosesu a'i storio mewn modd priodol.

Anfonwyd am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb 10/02/2024

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwblhawyd yr asesiad gan: | Siân Pritchard | Dyddiad: | 19/01/2024 |
| Cymeradwywyd yr asesiad gan: | Gaz Williams | Dyddiad: | 19/01/2024 |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Mae'r polisi a'r weithdrefn hon i'w gweithredu gyda phob dysgwr a chan yr holl staff. | Dylid rhoi dulliau amlddisgyblaethol ar waith er mwyn sicrhau iechyd a llesiant pob dysgwr. Dylid gwneud cyfeiriadau priodol a phrydlon at unigolion/timau ac asiantaethau allanol a enwir yn briodol i sicrhau nad oes unrhyw ddysgwyr o dan anfantais yn sgil gweithredu'r polisi hwn (e.e. Gwasanaethau i Ddysgwyr, Cwnselwyr, Swyddogion Diogelu).<br><br>Dylid cyfeirio digwyddiadau o natur wahaniaethol, gan gynnwys hiliaeth, at y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau a'u trafod.<br><br>Rhaid gweithredu'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig ochr yn ochr â pholisïau eraill y Grŵp gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>Diogelu<br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>Iechyd a Llesiant |
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Pan gânt eu gweithredu ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau eraill y Grŵp, gall pob grŵp gwarchodedig elwa o'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig. | |

FINAL

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r broses apelio yn ceisio meithrin tegwch yn ogystal ag atgyfeirio pob dysgwr i wasanaethau cymorth priodol. | |
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Nid yw'r polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb na meithrin cysylltiadau da, yn hytrach mae'r polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig yn niwtral ac yn ceisio darparu tegwch a chydraddoldeb i bob dysgwr. | Dylid cefnogi dysgwyr wrth weithredu'r polisi hwn i sicrhau eu bod yn deall y polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion meddygol, y gall fod angen addasu fformatau cyfathrebu ar eu cyfer er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb mynediad. |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Nid yw'r polisi yn cyfeirio'n benodol at unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig. O'r herwydd, dylid trin pob dysgwr yn gyfartal ac yn deg wrth weithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig. | Dylai staff sy'n gweithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr, eu cynrychiolwyr ac asiantaethau proffesiynol yn gywir ac yn hygyrch.<br><br>Dylid darparu gwybodaeth yn y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog yn unol â dewis iaith gofnodedig yr unigolyn. Dylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd lle mae unigolyn yn dymuno cyfrannu yn y Gymraeg a lle nad oes siaradwyr Cymraeg yn bresennol. |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Nac oes | |
| Casgliad | Diwygio'r polisi | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLOFNODWYD: | Siân Pritchard | Dyddiad: | 19/01/2024 |

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwblhawyd yr asesiad gan: | Siân Pritchard | Dyddiad: | 19/01/2024 |
| Cymeradwywyd yr asesiad gan: | Gaz Williams | Dyddiad: | 19/01/2024 |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Bydd y polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig ar gael i staff a dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Bydd staff a dysgwyr yn cael eu cefnogi i weithredu'r polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig yn y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog yn unol â dewis yr unigolyn. | Dylid cofnodi dewis iaith yr unigolyn (Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog) a'i storio'n ddiogel a'i barchu yn unol â safonau'r Gymraeg. |
| Pa effeithiau andwyol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cefnogir staff a dysgwyr i roi'r polisi hwn ar waith naill ai yn y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog yn unol â'u dewis iaith ac yn unol â safonau'r Gymraeg.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau andwyol pan fydd unigolion yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig yn eu dewis iaith. | Dylid hysbysu unigolion bod ganddynt yr hawl i weithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog yn unol â'u dewis iaith.<br><br>Rhaid hysbysu unigolion na fydd gofyn am weithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi yn y broses.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Dylid ychwanegu hyn at y polisi. |

| | | |
|---|---|---|
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?<br>Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, a phryd? | Oes, mae digon o aelodau staff o fewn gwasanaethau i ddysgwyr, timau llesiant a thimau rheoli i roi'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai a'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg? | Os gweithredir yn unol â'r cyfarwyddyd, mae'r polisi a'i weithdrefn gysylltiedig yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp a Safonau'r Gymraeg. | Dylid hysbysu unigolion bod ganddynt yr hawl i weithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog yn unol â'u dewis iaith.<br><br>Rhaid hysbysu unigolion na fydd gofyn am weithredu'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at |

| | | |
|---|---|---|
| | | unrhyw oedi yn y broses.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Dylid ychwanegu hyn at y polisi. |
| Casgliad | Diwygio'r polisi | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLOFNODWYD: | Siân Pritchard | Dyddiad: | 24/01/2024 |

FINAL